# Diogelu delweddau eich lleoliad rhag iddyn nhw gael eu camddefnyddio a'u haddasu gan ddeallusrwydd artiffisial (AI):

Canllawiau ar gyfer lleoliadau addysgol a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Paratowyd y canllawiau hyn gan UK Online Harms Early Warning Working Group. Mae'r canllawiau yn rhannu arferion gorau ac ystyriaethau ar gyfer lleoliadau addysg a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar ddefnyddio lluniau a fideos o blant a phobl ifanc ar draws eu platfformau ar-lein, er mwyn denu sylw i'r risg y bydd eu delweddau'n cael eu haddasu gan AI.

## Arferion i ddiogelu delweddau o bobl ifanc

Mae'r ddogfen hon yn edrych ar sut i fynd ati yn gyfrifol i reoli, rhannu a diogelu ffotograffau a fideos, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys delweddau a ddefnyddir ar draws gwefannau lleoliad addysgol, platfformau eu cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau digidol eraill. Wrth feddwl am y ffordd orau o ddiogelu delweddau plant a phobl ifanc ar-lein, efallai y bydd ysgolion a lleoliadau addysg yn dymuno meddwl am arferion diogelwch delweddau fel:

- [ ] Sicrhau nad yw delweddau'n cynnwys gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod yr unigolyn ac i niweidio neu fanteisio ar unigolyn trwy gyfrwng blacmel (e.e. enwau llawn neu wynebau).
- [ ] Defnyddio delweddau y mae'n anoddach eu camddefnyddio neu eu cam-drafod, gallai hyn fod trwy ddim ond rhannu ffotograffau a gymerwyd o bell, delweddau aneglur neu ddelweddau a gymerwyd o dros yr ysgwydd.
- [ ] Defnyddio gosodiadau preifatrwydd i helpu i gyfyngu ar bwy sy'n gallu gweld a rhannu cynnwys (gellir gwneud hyn ar y cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw fan arall lle mae delweddau'n cael eu storio neu eu rhannu).
- [ ] Dileu metadata (e.e. data EXIF) o'r delweddau sy'n gallu arwain at ddatgelu y lleoliad, manylion am y ddyfais neu stampiau amser. Gall data o'r fath ddatgelu, yn anfwriadol, amserlenni neu arferion, er enghraifft sesiynau hyfforddiant rheolaidd
- [ ] Gwneud yn siŵr bod arferion diogelwch sy'n gysylltied

# Beth ydy'r risg?

Mae sicrhau bod delweddau o blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu yn bwysig dim yn unig o safbwynt cydymffurfio neu enw da ond ei fod yn fwy na dim yn ymwneud â diogelu. Mae'n dyletswydd i ddiogelu plant a phobl ifanc yn cynnwys eu diogelu ar-lein.

Mae'r risgiau sy'n cael eu cysylltu â diogelwch delweddau yn cynnwys:

- **Camddefnyddio neu gam-drafod delweddau:** gellir cymryd delweddau o blant a phobl ifanc oddi ar wefan neu blatfform ar-lein mewn lleoliad addysgol, er enghraifft drwy y defnydd o gwe-grafu (web-scraping). Gellir camddefnyddio'r delweddau hyn, eu rhannu heb ganiatâd neu eu haddasu i greu delweddau pellach o blant a phobl ifanc; gan gynnwys defnyddio offer AI fel apiau noethni (nudification) i greu cynnwys sy'n cam-drin plant yn rhywiol (AI CSAM).
- **Bod yn agored i flacmel:** mae'r camddefnydd o ddelweddau yn enwedig drwy ddefnyddio AI CSAM yn gallu arwain at flacmel yn erbyn lleoliad addysgol neu unigolyn i dalu arian yn erbyn y bygythiad y bydd y delweddau'n cael eu rhannu. Gall delweddau o blant a phobl ifanc (neu staff) fod yn agored i'r math hwn o flacmel.
- **Pryderon diogelu:** gall y posibilrwydd bod delweddau o blant a phobl ifanc yn cael eu camddefnyddio, eu cam-drafod neu'u rhannu heb ganiatâd arwain at bryderon diogelu, er enghraifft, Plant sy'n Derbyn Gofal. Gall hyn gynnwys bod yn agored i flacmel neu roi plant a phobl ifanc mewn perygl o niwed drwy ddatgelu gwybodaeth bersonol neu ddata am eu lleoliad.
- **Torri ar draws preifatrwydd:** gall colli rheolaeth ar fetadata sy'n datgelu gwybodaeth sensitif arwain at dorri rheoliadau data a phreifatrwydd.

# Pam mae hyn yn bwysig?

Mae rhoi mesurau diogelu delweddau yn eu lle, gan ystyried yn ofalus pa ddelweddau sy'n cael eu cynnwys yn ogystal ag ystyried sut mae'r delweddau hynny o blant a phobl ifanc yn cael eu defnyddio yn bwysig am nifer o resymau gan gynnwys:

- **Diogelu plant a phobl ifanc:** dylai diogelu fod ar frig rhestr flaenoriaethau pob lleoliad addysgol wrth ddefnyddio delweddau plant a phobl ifanc. Mae datblygiadau mewn technoleg ar-lein yn gallu arwain at ddelweddau o blant a phobl ifanc yn cael eu camddefnyddio, eu rhannu heb ganiatâd neu at ddatgelu data personol. Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn deall y risgiau hyn ac yn rhoi dull diogelu-yn-gyntaf ar waith i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- **Meithrin ymddiriedaeth:** mae rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch delweddau o fyfyrwyr yn dangos ymrwymiad i breifatrwydd, diogelu ac arferion digidol cyfrifol. Mae'n gallu arwain at feithrin gwell ymddiriedaeth o safbwynt plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr ac arolygwyr.
- **Mae'n gallu arwain at ddathlu llwyddiannau mewn ffordd mwy diogel:** mae diogelwch delweddau yn bwysig o ran sicrhau bod lleoliadau addysg yn gallu arddangos eu cyfleusterau, bywyd eu myfyrwyr a'u llwyddiannau tra'n lleihau'r elfen o risg.
- **Cydymffurfiaeth:** mae diogelwch delweddau yn eich helpu i sicrhau eich bod yn cydymffurfio ac yn gweithredu ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data ac â pholisïau awdurdodau lleol.

# Rhestr wirio o’r camau gweithredu i’w hystyried

***Hyfforddiant staff ac ymateb:***

- [ ] Dylai'r pawb o’r staff gael eu hyfforddi i adnabod ac ymateb i achosion o gam-drin ar sail delweddau (e.e. rhannu heb gydsyniad, addasu delweddau neu fygythiadau yn ymwneud â delweddau o fyfyrwyr) gyda phwyslais ar atal ac ymarfer diogel.
- [ ] Gwneud yn siŵr bod eich ymateb cychwynnol i faterion o ddiogelwch yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, urddas a lles emosiynol y myfyriwr.
- [ ] Rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw flacmel neu fygythiadau sy'n ymwneud â delweddau fel mater troseddol, yn ogystal â dilyn y gweithdrefnau diogelu mewnol.

***Cydsyniadrhieni:***

- [ ] Rhoi gwybodaeth glir i rieni, gofalwyr a phobl ifanc am y risgiau posibl o ddefnyddio delweddau, gan gynnwys camddefnyddio ac addasu cynnwys digidol ar-lein, a'r camau y mae eich lleoliad yn eu cymryd i ddelio â hyn.
- [ ] Adolygu ac ail-lofnodi ffurflenni cydsyniad ar gyfer ffotograffau a fideos yn rheolaidd (e.e. yn flynyddol neu ar adegau pontio allweddol) er mwyn sicrhau eu bod pawb yn ymwybodol ac yn rhoi eu caniatâd.
- [ ] Fel arwydd o arfer dda fe ddylai plant a phobl ifanc roi eu cydsyniad eu hunain yn ychwanegol at gydsyniad o ran y rhieni/gofalwyr, gan gydnabod eu hannibyniaeth a'u hawliau cynyddol, os ydyn nhw’n ddigon hen ac yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain.
- [ ] Sicrhau ei bod yn hawdd derbyn ffurflenni cydsyniad, a bod cyfle i bawb godi cwestiwn neu i newid eu penderfyniad o ran cydsynio ar unrhyw adeg.

***Archwilio ac adnewyddu cynnwys:***

- [ ] Trefnu i gynnal archwiliadau rheolaidd o ddelweddau plant a phobl ifanc, gan gadw cofnod o hynny (e.e. bob tymor neu bob chwe mis) ar wefannau, cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau hyrwyddo.
- [ ] Sicrhau bod unrhyw ddelweddau sydd wedi dyddio yn cael eu diweddaru neu eu dileu lle bo angen er mwyn lleihau'r risg, a sicrhau bod y broses hon yn cyd-fynd â'r canllawiau cydsynio a diogelu cyfredol.
- [ ] Diweddaru’r canllawiau polisi ac ymarfer i sicrhau arferion digidol da mewn perthynas â rhwymedigaethau lleihau neu gwtogi data a chyfyngiadau storio. Cofiwch gadw data personol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol a chyfyngu ar faint o ddata sy’n cael ei gasglu, gan gynnwys delweddau myfyrwyr.

## Cwestiwn allweddol i'w ystyried: Ydy’r delweddau o blant a phobl ifanc yn angenrheidiol?

Er mwyn diogelu eich lleoliad, eich staff a'ch pobl ifanc, ystyriwch a oes angen delweddau o blant a phobl ifanc o gwbl arnoch, ynteu a ydych chi yn gallu dal i gyflawni eich amcanion heb ddefnyddio delweddau o wynebau plant a phobl ifanc (e.e. arddangos eich lleoliad).

Os ydych chi'n defnyddio delweddau o blant a phobl ifanc bydd angen i chi hefyd ystyried y canlynol:

- [ ] Disodli delweddau sy’n dangos dysgwr yn uniongyrchol, gan ddefnyddio onglau amgen sy’n lleihau nodweddion y gellir eu hadnabod.
- [ ] Osgoi enwau neu enwau llawn.
- [ ] Rhoi cyfyngiadau ar bwy sy’n cael gweld delweddau o fyfyrwyr (e.e. grwpiau caeedig yn hytrach na phlatfformau agored).
- [ ] Gwneud yn siŵr bod y cyfan o’r metadata yn cael ei dynnu oddi ar ddelweddau cyn eu cyhoeddi.
- [ ] Defnyddio delweddau llai clir i leihau'r risg y cânt eu camddefnyddio.
- [ ] Rhannu gwybodaeth glir gyda rhieni a gofalwyr am y risgiau posibl a'r prosesau sydd ar waith i ddiogelu delweddau myfyrwyr.
- [ ] Gwneud diogelwch delweddau yn rhan annatod o bolisïau a gweithdrefn, gan ei wneud yn un o’r gofynion sefydlog ar draws arferion diogelu, cyfathrebu a Technoleg Gwybodaeth (TG).
- [ ] Ystyried defnyddio meddalwedd amddiffynnol (e.e. dyfrnodau (watermarking), sgwrio metadata neu offer "imiwneiddio") i leihau'r risg bod delweddau o fyfyrwyr yn cael eu camddefnyddio neu’u haddasu heb awdurdod.
- [ ] Dileu delweddau o unrhyw blant neu bobl ifanc nad ydyn nhw bellach yn aelodau o gymuned yr ysgol.

## Beth i'w wneud os yw delweddau o bobl

## ifanc yn cael eu camddefnyddio, eu haddasu neu eu cam-drafod

Os ceir digwyddiad, mae'n bwysig cymryd y camau canlynol:

**Atal ac Uwch-gyfeirio**

- [ ] Peidiwch â dileu na rhannu ymhellach unrhyw ohebiaeth na delweddau troseddol sy'n ymwneud â'r digwyddiad. Cadwch a storiwch nhw'n ddiogel a gofyn am gyngor gan eich heddlu lleol.
- [ ] Fel cam cyntaf, gwnewch yn siŵr nad yw'r fersiwn wreiddiol o'r delweddau hyn bellach ddim ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys y gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.
- [ ] Rhowch wybod i'r Unigolyn Perthnasol neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn eich ysgol neu eich sefydliad neu un o'r uwch gydweithwyr.
- [ ] Cofnodwch fanylion y digwyddiad yn unol â'ch prosesau safonol ar gyfer adrodd yn ôl am ddigwyddiad, gan gynnwys cynnal asesiad risg o'r effaith ar unigolion a chymryd unrhyw gamau hysbysu yn ôl yr angen.
- [ ] Os oes rhywun wedi cysylltu â chi ac yn bygwth eich lleoliad drwy flacmel neu fygythiad o unrhyw fath, mae'n bwysig nad ydych yn cysylltu â'r unigolyn nac yn ymateb i ddim un o'r gofynion. Gall talu arian mewn ymateb i fygythiad fod yn anghyfreithlon mewn rhai amgylchiadau.

**Adrodd yn ôl**

- [ ] **Yr heddlu:** Rhowch wybod i'r heddlu lleol os ydych wedi derbyn bygythiad gan rhywun sy'n dweud eu bod yn bwriadu cyhoeddi delweddau rhywiol o blant neu bobl ifanc o'ch lleoliad addysgol. Mae creu deunydd sy'n cam-drin plant yn rhywiol yn anghyfreithlon hyd yn oed os ydy'r deunydd hwnnw wedi cael ei greu gan AI ai peidio. Os oes person ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol, ffoniwch 999.
- [ ] **Report Remove (Childline/IWF)**: · Helpwch bobl ifanc dan 18 oed i ddefnyddio 'Report Remove' i adrodd yn ôl os ydyn nhw wedi derbyn delweddau neu fideos rhywiol ohonyn nhw eu hunain, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu creu gan AI, i weld os ydy hi'n bosibl eu tynnu oddi ar y rhyngrwyd.
- [ ] **Take It Down**: Gwasanaeth dileu delweddau, gan gynnwys y delweddau a gynhyrchir gan AI, sydd yn cael ei gynnig gan The National Center for Missing and Exploited Children (NCMEC).
- [ ] **Stop NCII**: Defnyddiwch 'Stop NCII' i gael gwared ar ddelweddau personol sydd heb dderbyn caniatâd i'w defnyddio ar gyfer pobl dros 18 oed, boed nhw'n

fyfyrwyr neu'n staff, gan gynnwys os yw'r delweddau hyn wedi cael eu cynhyrchu gan AI.

**Adrodd yn ôl i'r platfform**

- [ ] Gofynnwch am ddileu'r delweddau oddi ar y gwefannau sy'n cael eu cynnal (hoasting sites) / cyfryngau cymdeithasol lle maen nhw wedi'u rhannu.

**Cefnogaeth**

- [ ] Rhowch flaenoriaeth i ddiogelwch a lles myfyrwyr.
- [ ] Dywedwch yn glir wrth y rhieni a'r gofalwyr beth yw'r camau nesaf. Atal Ail-ddigwyddiad
- [ ] Gwnewch archwiliad manwl am y delweddau sydd ar wefannau / platfformau'r ysgol yn ogystal â thynhau'r prosesau cydsynio.
- [ ] Ewch ati i ddiweddaru eich polisïau a'r hyfforddiant ar gyfer y staff.
- [ ] Ystyriwch feddalwedd amddiffynnol (e.e. defnyddio dyfrnodau, sgwrio metadata).
- [ ] Mae dod i gysylltiad â deunydd anghyfreithlon sy'n ymwneud â phlant, ymateb i'r pryderon a chefnogi'r teuluoedd yr effeithir arnynt yr un pryd yn gallu achosi gofid mawr i'r staff dan sylw. Felly, mae'n bwysig bod staff yr effeithir arnynt yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt gyda'u lles trwy eu gwaith neu linellau cymorth allanol. Gall gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr hefyd ofyn am gymorth a chyngor trwy'r llinell gymorth Stop It Now neu'r Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol.

## Beth i'w wneud os mae rhywun dros 18 oed yn cael ei dargedu

Bydd rhai pobl ifanc yn dal yn yr ysgol neu'r coleg pan maen nhw dros 18 oed ac mae'n bwysig eu gwneud yn ymwybodol o'r adnoddau cymorth y gallan nhw eu defnyddio. Mae staff yn gallu cael eu targedu. Maen nhw hefyd yn gallu defnyddio'r llwybrau adrodd yn ôl a'r gwasanaethau cymorth hyn.

Gall unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn y mae rhywun yn bygwth rhyddhau delweddau personol ohonynt nhw gysylltu â Stop NCII a the Revenge Porn Helpline.

Gellir dod o hyd i ganllawiau i weithwyr addysg uwch proffesiynol yma: Canllawiau FMSE HE 18+ yn ogystal â phoster

# Canllawiau ac offer defnyddiol

- Canllawiau ar sut i gael gwared ar fetadata EXIF - Canllaw a grëwyd gan y gweithgor rhybuddio cynnar.
- Hwb: Arferion ac egwyddorion i ysgolion ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol - Canllaw i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysg yn y defnydd diogel a chyfrifol o gyfryngau cymdeithasol.
- ICO: Cod ymarfer rhannu data - Camau ymarferol y mae angen i unigolion, busnesau a sefydliadau eu cymryd i rannu data wrth ddiogelu preifatrwydd pobl
- ICO: Canllaw i ddiogelwch data - Canllawiau ar sut y dylai sefydliadau fynd i'r afael â diogelwch data o dan GDPR y DU, sy'n amlinellu camau ymarferol i ddiogelu data personol.
- Internet Watch Foundation - Adrodd yn ddienw am amheuaeth o ddelweddau neu fideos o gam-drin plant yn rhywiol.
- Canllawiau Addysg CEOP IWF ac NCA: Deall ac ymateb i ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol a gynhyrchir gan AI - Gwybodaeth i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Marie Collins Foundation: Cefnogi plant sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth mewn delweddau - adnodd rhad ac am ddim sy'n mynd i'r afael â rhai o anghenion plentyn i ddod dros niwed a achoswyd yn sgil camdriniaeth rywiol o blant sy’n digwydd gyda chymorth technoleg.
- Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol - Cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gydag unrhyw broblem diogelwch ar-lein y gallent fod yn ei gael.
- Report Remove - Helpu pobl ifanc dan 18 oed yn y DU i adrodd yn gyfrinachol am ddelweddau a fideos rhywiol ohonynt eu hunain a'u tynnu oddi ar y rhyngrwyd.
- Templed asesu risg - Enghraifft o dempled rheoli risg y gall y lleoliad ei addasu i ddiwallu anghenion lleol.
- Canllawiau am gamddefnyddio AI ar Hwb Diogelwch Ar-lein SBNI: Gogledd Iwerddon - Esbonio sut y gall deallusrwydd artiffisial gael ei gamddefnyddio, ac amlygu'r pryderon diogelu allweddol y dylai rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt.
- Canllawiau ar rannu delweddau noeth a hanner noeth: Lloegr - Mae'r cyngor hwn yn amlinellu sut y dylai sefydliadau yn Lloegr ymateb i ddigwyddiad o rannu lluniau noeth neu hanner noeth.
- Canllawiau ar rannu delweddau noeth a hanner noeth: Cymru - Mae'r cyngor hwn yn amlinellu sut y dylai sefydliadau yng Nghymru ymateb i ddigwyddiad o rannu delweddau noeth a hanner noeth.
- SWGfL: Templed Polisi Diogelwch Ar-lein - Templed sy'n caniatáu i ysgolion

greu polisi diogelwch ar-lein sy'n berthnasol i'w lleoliad.

- SWGfL: Rhestrau gwirio Cyfryngau Cymdeithasol - Yn rhoi canllawiau syml, ymarferol i'ch helpu i ddefnyddio nodweddion diogelwch a phreifatrwydd llwyfannau poblogaidd.
- Take It Down - Gwasanaeth i bobl ifanc i'w helpu i gael gwared ar luniau a fideos noeth, hanner noeth neu rywiol ar-lein a dynnwyd cyn iddynt fod yn 18 oed.
- Tynnu lluniau: cyngor i ysgolion ar ddiogelu data - Canllawiau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- UKCIS: Sut i ymateb i ddigwyddiad (Trosolwg) - Cyngor i leoliadau addysg sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

# Ynglŷn â Gweithgor Rhybudd Cynnar am Niwed Ar-lein y DU

Mae'r canllawiau hyn wedi'u drafftio a'u cefnogi gan aelodau canlynol Gweithgor Rhybuddio Cynnar Niwed Ar-lein y DU:

- Childnet
- Education Scotland
- Embrace (Child Victims of Crime)
- Internet Watch Foundation
- Lucy Faithfull Foundation
- Marie Collins Foundation
- National Crime Agency - CEOP Education
- NSPCC
- Bwrdd Diogelu Gogledd Iwerddon
- Samariaid
- SWGfL
- The Children’s Society
- Llywodraeth Cymru

Mae Gweithgor Rhybuddio Cynnar am Niwed Ar-lein y DU wedi'i gynllunio i ddatblygu trefniadau rhannu gwybodaeth cynnar rhwng llinellau cymorth, llinellau ffôn, y llywodraeth, adrannau gorfodi'r gyfraith, a chyrff adrodd er mwyn nodi materion neu dueddiadau newydd sy'n ymwneud â niwed ar-lein yn gynnar.